

# Y TYST

Sefydlwyd 1867 Cyfrol 154 Rhif 46 Tachwedd 18, 2021 50c.

## DECHRAU PENNOD NEWYDD YN SEION, ABERYSTWYTH A BETHEL, TAL-Y-BONT

Llawenydd o'r mwyaf i aelodau eglwysi Seion, Aberystwyth a Bethel, Tal-y-bont oedd cael ordeinio a sefydlu Gwilym Tudur yn weinidog i'r Arglwydd Iesu Grist yn yr ofalaeth newydd hon, ddydd Sadwrn 30 Hydref. Dan lywyddiaeth y Parchg Andrew Lenny, rhagflaenydd Gwilym Tudur yn Seion, croesawyd tyrfa deilwng i Stryd y Popty, yn unol ag amodau Covid-19, i dystio i'r achlysur arbennig hwn. Nid dieithr mo Gwilym Tudur i aelodau'r ofalaeth gan iddo wasanaethu fel gweinidog o dan hyfforddiant yn yr eglwysi ers Medi 2020, ac eisoes profwyd bendith o dan ei arweiniad a'i bregethu eneiniedig ef. Diddorol nodi, o'r un gweinidog ar ddeg a wasanaethodd yn Seion, mai un arall yn unig a ordeiniwyd yn yr eglwys, sef taid Gwilym, y Parchedig Ddr R. Tudur Jones, a hynny ym 1948.

### Addoli, cyflwyno ac ordeinio

Wedi canu emyn Titus Lewis 'Mawr oedd Crist yn nhragwyddoldeb,'

cyflwynwyd y darlleniadau, Jeremeia 11:1-8 ac Effesiaid 4:1-16, gan Eysyllt Roberts a Gruffydd Rhys. Offrymwyd gweddi gan Alexandra Tudur, gwraig Gwilym.

'Mor fawr yw cariad Duw y Tad,' cyfieithiad Arfon Jones o emyn Stuart Townend, a ganwyd cyn yr ordeinio a oedd yng ngofal y Parchg Aled Jones, cyfarwyddwr a chydlynnydd hyfforddi Coleg yr Annibynwyr Cymraeg. Oherwydd absenoldeb anorod Malcolm Thomas, ysgrifennydd eglwys Ebeneser, Caerdydd, cyflwynwyd Gwilym, ar ran yr eglwys gan Arfon Jones, ac ar ran Cyfundeb Dwyrain Morgannwg gan Emlyn Davies. Leon Gibson, Cadeirydd Pwyllgor yr Alwad, roddodd hanes yr alwad cyn i Gwilym yntau rannu ei brofiad a'i dystiolaeth ddiwyll â'r gynulleidfa. Offrymwyd yr Urdd Weddi gan y Parchg Ddr Rhodri Glyn cyn i'r gynulleidfa ganu Emyn yr Ordeinio, 'Iesu, Bugail mawr y defaid'.



Phil Davies ysgrifennydd Bethel, Tal-y-bont gyda'r Parchg Gwilym Tudur

### Pregeth

Seiliwyd pregeth afaelgar a heriol y Parchg Ddr Alun Tudur, tad Gwilym a gweinidog Ebeneser, Caerdydd, ar adnodau'r darlleniad o Lythyr Paul at yr Effesiaid; 'Na, gadewch i ni ddilyn y gwir mewn cariad, a thyfu ym mhob peth i Grist. Ef yw'r pen, ac wrtho ef y mae'r holl gorff yn cael ei ddal wrth ei gilydd a'i gysylltu drwy bob cymal sy'n rhan ohono. Felly, trwy weithgarwch cyfaddas pob un rhan, ceir prifant yn y corff, ac y mae'n ei adeiladu ei hun mewn cariad.' (Effesiaid 4:15-16). Crist, Corff a Chydweithio oedd y tri phennawd a gyflwynwyd ganddo: Crist y pen, yn yr hwn yr amlygwyd cariad anfeidrol Duw; Corff Crist – yr eglwys, lle mae i bob aelod ei waith, ei ddawn a'i gyfrifoldeb; Cydweithio – yr hwn a ddug ffrwyth, twf a phrifant y corff.

### Croesawu

Gwerthfawrogwyd cyfraniad naturiol plant y ddwy eglwys drwy gyfrwng fideo cyn i Lewis Gruffudd, ysgrifennydd Seion a Phil Davies, ysgrifennydd Bethel groesawu Gwilym Tudur yn swyddogol ar ran yr eglwysi. Cadeirydd Cyfundeb Ceredigion, Karine Davies, groesawodd ar ran y Cyfundeb a'r Parchg Ddr Watcyn James ar ran gweinidogion y fro. Priodol iawn oedd geiriau'r emyn olaf, 'Yng Nghrist ei Hun mae 'ngobaith i', wrth i'n gamu'n hyderus i'r dyfodol o dan arweiniad a gweinidogaeth Gwilym.

Diolchwyd i'r organyddion, yr Athro Eleri Pryse a Falyri Jenkins ynghyd ag aelodau'r band; Gruffydd Rhys, Aled a Hywel Davies am eu cyfraniad gwerthfawr hwy i'r oedfa. Diolchwyd hefyd i'r tîm o stiwardiaid am eu gwaith gofalus ac yna cyhoeddwyd y fendith gan y Parchg Gwilym Tudur.

Cafwyd lluniaeth a chyfle i gymdeithasu'n ddiogel wedi'r oedfa yng ngwesty Llety Parc, Llanbadarn Fawr.

**Rhiannon Davies**



(O'r chwith i'r dde): swyddogion Seion, Peter Williams, Endaf Edwards, Rhiannon Davies, Gwilym Tudur, Lewis Gruffudd, Gwenda James, Leon Gibson, Llinos Young, David Griffiths



Rhai o'r rhai a gymerodd ran yn yr oedfa: Watcyn James, Karine Davies, Gruffydd Rhys Davies, Eysyllt Roberts, Arfon Jones, Gwilym ac Alexandra Tudur, Hywel Davies, Aled Davies, Rhodri Glyn, Andrew Lenny, Owain Toberts ac Alun Tudur

# Colofn Cerdd a Mawl

## Beth sy'n gwneud tôn dda?


Dyna ichi gwestiwn y mae cyfansoddwyr yr emyn dôn yn yr Eisteddfod Genedlaethol wedi pendroni drosto'n siŵr dros y blynyddoedd, yn ogystal â chyfranwyr y cystadlaethau hynod hynny, yr *Eurovision* a *Chân i Gymru*. Awgrym yr arbenigwyr yw bod fformiwla i dôn lwyddiannus gydag amseriad 4/4, cywair llon, pennill a chytgan gofiadwy yn llwyddo'n aml. Yn ogystal mae alaw a'i thempo'n cyfateb i guriad calon yn rhagori (rhwng 60 a 100 o guriadau y funud), a hynny mae'n debyg yn cyffordduso'r gwrandawr wrth i guriad y gerddoriaeth ymlynu'n agos at fetronôm yr enaid. Ydi, mae alaw dda yn gallu 'cyffwrdd â'r galon' yng ngwir ystyr y gair.

Wrth fynd â'r ddamcaniaeth ymhellach, y tebyg yw bod alawon ychydig yn gyflymach na churiad y galon yn gallu ein hysbrydoli a'n codi i'r entychion, yn enwedig os bydd yr amseriad yn cyflymu tua'r diwedd ac yn esgyn i uchafbwynt wrth newid cyweirnod. Ychydig o'n tonau emynyddol sy'n trawsgyweirio, ond fe dybiwn i bod rhwydd hynt i'r organyddion osgoi arafu tua'r diwedd! Bydd nifer ohonom yn cofio ambell i godwr canu yn mynd i hwyl, ac rwy'n hoff iawn o'r arfer o aildaro emyn, neu ddyblu'r gân, a thrwy hynny cael ymhyfrydu yn angerdd y geiriau. Gwae ni os yr anghofiwn hyn wrth i'n cynulleidfaeddi leihau, gan mai yr un yw'r arddeliad ysbrydol waeth faint sy'n bresennol yn y cwrdd; daliwn ati!

### 'Curo dwylo' a 'llinellau-cân'

Digwyddais ddod ar draws ffactor ddiddorol arall wrth ystyried yr hyn sy'n creu tôn dda, sef bod amseriad curiad calon hefyd yn ymdebygu i rythm cymeradwyo cynulleidfa. Cefais f'atgoffa drwy hynny o'r ddeuddegfed adnod yn Eiseia 55, a'r ddelwedd hynod honno o'r bryniau'n bloeddio a'r coed yn frwd eu cymeradwyaeth. 'Canys mewn llawenydd yr ewch allan, ac mewn heddwch y'ch arweinir; y mynyddoedd a'r bryniau a floeddiant ganu o'ch blaen, a holl goed y maes a gurant ddwylo.'

Traddodiad cyfoethog yw'r hen arfer



gan gynfrodorion Awstralia o ddefnyddio llinellau-cân ('songlines') i gyfeirio'r llwybrau o un man cysegredig i un arall traws gwlad. Caneuon ydynt sy'n llawn o gyfeiriadaeth ddaearyddol ac amgylcheddol, yn disgrifio natur a nodweddion y tir a hynny'n gymorth i'r teithwyr i fynd yn eu blaenau. Adnabyddir nodweddion yr alawon, megis amlinelliad y donyddiaeth a'r goslefu'n esgyn a disgyn, fel arwyddion o ble i droi nesaf. Mae natur rhythmig y dôn hefyd yn hollbwysig i ddeall camau'r daith. A hyd yn oed os nad yw iaith y geiriau'n wybyddus i'r teithwr (â chymaint o ieithoedd brodorol yn y wlad), bydd nodweddion arbennig y dôn yn cyfeirio ei gamau. Wrth basio'r diwylliant hwn ymlaen o un genhedlaeth i'r llall, arddelir y cysylltiad rhwng y trigolion â'r fam-ddaear, eu credoau a'u hunigrywiaeth fel cenedl.

### 'Harmoni'

Mae gennym ninnau alawon gwerin ar lawr gwlad, caneuon plygain sy'n perthyn i ardaloedd arbennig, ac emynau dirifedi sy'n dal i'n difyrro a'n hysbrydoli. Gwyddom fel y mae canu yn gallu rhyddhau endorffinau megis 'oxytocin' (yr hormon sy'n lliniaru pryder), 'dopamin' (niwro-drosglwyddydd sy'n codi'r hwyliu), 'serotonin' (sy'n creu cydbwysedd a dedwyddwch). Fel Cymry, rydym yn adnabod llwybrau'r emynau ac mae'r harmoni pedwar llais wedi'i gerfio'n gywain ar ein cof. Trasiedi o'r mwyaf fyddai inni golli'r traddodiad bendigedig o gyrraedd yr uchelfannau wrth i lais y sopranos esgyn ar gymal uchafbwyntiol, ynghyd â'r baswyr yn morio ar y gwaelodion, y tenoriaid yn perseinio'r so-ffa-mi, a'r altos ynghanol yr harmoni'n gludo ynghyd y gwad melys. Un o fy hoff atgofion yw'r canu byrfyfyr arferai ddiwydd wrth i braidd y

Tabernacl yn Nolgellau adael y galeri ar ddiwedd Gymanfa, 'Bendigedig fyddo'r Iesu' oedd un o'r ffefrynnau ac mae'r 'Haleliwias' a'r 'moliant Iddo byth Amen' yn atsain fel clychau clir yn y cof. Tôn dda yw 'Mawlgan' gan John Henry Roberts sy'n meddu ar y nodweddion 'perffaith' hynny a ddisgrifiais eisoes.

### 'Uno yn y gân'

Un stori fach cyn cloi. Wrth ganu mewn cartref gofal rhai blynyddoedd yn ôl ym Mhrestatyn, roedd gwraig yn ei chwman yn y rhes flaen – yn gymaint felly fel na allwn weld ei llygaid wrth gerdded heibio iddi'n canu. Yn ôl fy arfer mewn cyngerdd o'r fath, penliniais wrth ei hymyl a gorffwys fy llaw yn dyner ar ei glin. O dipyn i beth, symudodd ei llaw i gyffwrdd â f'un i, ac yn raddol bach agorodd ei llygaid. 'Moon River' oedd y gân ar y pryd (roeddwn wedi canu ambell i emyn Gymraeg hefyd cofiwch) ac erbyn fy mod yn canu 'wherever you're going, I'm going your way' roedd hithau'n cydganu a'n camau cerddorol yn asio ac yn uno. Digwyddais godi fy ngolygon a gweld nifer o'r gofawyr yn colli dagrau. Deallais wrth sgwrsio ar y diwedd, mai dawnswraig bale yr arferai hi fod yn Sadler's Wells, Llundain ac nad ydoedd wedi yngan gair am ymron i naw mlynedd. Ond, fe ganodd y dydd hwnnw. Anghofia i fyth mo'r profiad o weld â'm llygaid fy hun ac o deimlo yn yr enaid fel y mae tôn dda yn gallu bywhau ac aildanio'r galon!

Dyma gariad gwyd fy enaid  
Uwch holl bethau gwael y llawr,  
Dyma gariad wna im ganu  
Yn y bythol wynfyd mawr.

Sian Meinir

Coleg yr Annibynwyr Cymraeg

## Cyrsiau'r Hydref

Darllen, deall a dehongli

Gair Duw heddiw –

Astudio'r Beibl yn ein cyd-destun ni

7 o'r gloch, nos Lun 22 Tachwedd -  
Y Beibl Hebraeg

JOHN OWAIN AB IFOR JONES,  
Eglwys Unedig Bute, Eglwys yr Alban

Croeso cynnes iawn i bawb

Bydd pob cwrs ar-lein eleni

Manylion pellach a dolenni Zoom oddi  
wrth aled@colegyrannibynwyr.cymru

# Yr Adran Gydenwadol

## Diwrnod o weithredu ar draws Cymru a'r byd yn wyneb yr argyfwng hinsawdd



Rhai o'r 'bloc ffydd' – yn cynrychioli cefnogwyr yr elusennau Cristnogol Tearfund, Cymorth Cristnogol a Cafod – a ddaeth ynghyd yn Eglwys Dewi Sant am gyfarfod o addoliad a gweddi dros gyfiawnder hinsawdd cyn ymuno â'r orymdaith yng Nghaerdydd

Daeth ymgyrchwyr a chefnogwyr ynghyd i nifer o leoliadau yng Nghymru a ledled y byd ar 6 Tachwedd ar gyfer diwrnod o weithredu byd-eang ar gyfiawnder hinsawdd. Gyda chynhadledd COP26 yn dal i fynd rhagddi yn Glasgow, fe anfonwyd neges glir bod pobl yn malio ac yn fodlon troi allan i ddangos hynny ac i fynnu gweithredu dros gyfiawnder i'r rhai sy'n cael eu heffeithio fwyaf gan yr argyfwng hinsawdd.

Yng Nghymru fe fu'r cynulliad mwyaf yng Nghaerdydd, lle tybir bod torf o 6,000 yn bresennol wrth iddyn nhw orymdeithio drwy'r ddinas er mwyn ymgynnull wedyn ar risiau adeilad y Senedd yn y Bae. Cafwyd cefnogaeth nifer helaeth o bobl hefyd i'r diwrnod ym Mangor ac yn Abertawe, a chynulliadau llai yn Wrecsam, Caerdybi a Threfynnwg, ymysg llefydd eraill.



Yr orymdaith a gynhwysai nifer fawr o fudiadau ar fin dechrau ger neuadd y ddinas yng Nghaerdydd



Ymgynnull wrth y cloc ym Mangor ar gyfer yr orymdaith yno wedi'r gwasanaeth yn Eglwys Emaus yn y ddinas



Tom Defis o Gymorth Cristnogol gydag aelodau o'r eglwysi a ddaeth ynghyd yn Abertawe

## Dwi'n hoffi coffi Jenipher!

Yr un penwythnos â'r raliâu ar draws Cymru, roedd ffermwraig goffi o Uganda o'r enw Jenipher Wattaka ar ymweliad â Chymru, ar ei ffordd i gynhadledd COP26 yn Glasgow. Cafodd fod yn y rali yng Nghaerdybi, a bore Sul, 7 Tachwedd, fe gafodd pobl yr Wyddgrug y fraint o'i chyfarfod mewn gwasanaeth yno. Fe glywsom nhw am ei gwaith fel ffermwraig, arweinydd a chwffiw wrth iddi hi ddweud ei stori a siarad ar ran cymdeithas gydweithredol o dros 3,500 o ffermwyr coffi ar odre Mynydd Eglon yn Uganda.

Soniodd hefyd am y ffordd arbennig yr oedd ei ffydd a'i magwraeth Gristnogol yn ei chynnal ac yn ei hysbrydoli i fynnu cyfiawnder, caru ei chymydog a gofalu am y rhai mwyaf bregus o'i chwmpas. (Dolen i recordiad o'r gwasanaeth y bu'n annerch ynddo: <https://youtu.be/hTRDXhvTr8>)

Jenipher Wattaka, sy'n ffermwraig goffi ers 30 mlynedd, yw'r ferch gyntaf i fod yn is-gadeirydd cwmni cydweithredol o ffermwyr ar odre llechweddau Mynydd Eglon yn nwyrain Uganda. Maen nhw'n cydweithio i gynhyrchu Jenipher's Coffi i safon organig a Masnach Deg.

Wedi iddi gyrraedd Glasgow yn hwyrach yn y dydd, fe fu'n brysur yn annerch ac yn rhannu am effeithiau newid hinsawdd ar ei fferm, ei theulu a'i chymuned. Bu'n sôn am bwysigrwydd buddsoddi'n uniongyrchol mewn gwarchod yr hinsawdd drwy brynu nwyddau Masnach Deg, fel y coffi sy'n cael ei gynhyrchu ganddynt. Mewn cydweithrediad bellach efo Llywodraeth Cymru, sy'n cefnogi plannu amrywiaeth o goed ar y ffermydd yn Uganda, mae'r coffi'n cael ei werthu yma yng Nghymru. Fe ellir darllen mwy o'i hanes ac archebu'r coffi ar y wefan: [www.jenipherscoffi.wales](http://www.jenipherscoffi.wales)

Dyma ddolen i fideo o gyfarfod arbennig a gynhaliwyd yn Glasgow gan Jenipher's Coffi a'r mudiad Gweithredu Cymunedol Cydweithredol



Jenipher Wattaka gartref ar ei fferm goffi yn plannu'r coed sy'n helpu i ddiogelu'r cnydau, cynyddu bioamrywiaeth a gwarchod y ffermwyr rhag y gwres

Cymru ac Uganda. Yno, bu Jenipher yn sôn am effeithiau newid hinsawdd ac am y gwaith o blannu coed amrywiol er mwyn lleihau'r effaith hwnnw a gwella'r cnydau coffi a dyfir: <https://youtu.be/ZfNVV8ApGu8>

## Cyflwyno tair Medal Gee 'er anrhydedd' am gyfraniad oes i waith yr ysgol Sul yng Nghymru

Ers dros 15 mlynedd mae Cyngor yr Ysgolion Sul wedi bod yn cyflwyno medalau Gee 'er anrhydedd' i unigolion a wnaeth gyfraniad nodedig yn hanes a thystiolaeth yr ysgol Sul yn genedlaethol. Mae'r medalau hyn wedi'u rhoi i rai fu'n paratoi adnoddau, yn gwasanaethu ar bwyllgorau plant ac ieuencid, yn hybu ac yn annog gweithgaredd plant, neu'n gwasanaethu'r Cyngor yn gyffredinol.

Cyflwynwyd y medalau cyntaf 'er anrhydedd' yn 2004 i Elisabeth Lloyd James a Rheinallt Thomas. Ers hynny cyflwynwyd 15 arall: yn 2005 i Mr Elfed Hughes o Uned Arfon a fu'n weithgar fel gweithiwr cyflogedig i'r Cyngor am ddeng mlynedd, ac yna i'r canlynol am eu cyfraniad nodedig: y Parchedigion Gareth Maelor Jones a Vincent Watkins yn 2006; y Parchedigion Huw John Hughes, Trefor Lewis ac Edward David Morgan yn 2010; y Parchedig Derwyn Morris Jones a Miss Beti Griffiths yn 2011; y Parchedig Ddr Elfed ap Nefydd Roberts yn 2013; y Barchedig Angharad Roberts ac Arfon Jones am eu gwaith gyda [beibl.net](http://beibl.net) yn 2015; ac i'r Parchedig J Ronald Williams yn 2017.



Ifan a Catrin Roberts gyda'u medalau

Enwebwyd y Parchedigion Catrin ac Ifan Roberts a Mr Nigel Davies i dderbyn medalau yn 2020, ond oherwydd Covid, bu'n rhaid gohriro'r cyflwyno tan 2021.

Braint oedd cael cyflwyno medal yr un i Ifan a Catrin Roberts yn Llanddarog yn ddiweddar, a hynny mewn cyfarfod a gynhaliwyd i gyflwyno medalau i nifer o ffyddloniaid yr eglwys yno.

Mae'r ddau wedi gwneud cyfraniad nodedig i'r dystiolaeth Gristnogol ymhlith plant ac ieuencid, gan gynnwys cefnogi ysgolion Sul a rhedeg clybiau plant eu hunain ym mhob gofalaeth y buon nhw'n gweindogaethu ynddi. Pan oedden nhw ym Meirionnydd roedd pum clwb wythnosol dan eu gofal, a dyna fu patrwm eu gweindogaeth mewn gofalaethau yn dilyn hynny. Bu'r ddau hefyd yn weithgar ar bwyllgorau plant ac ieuencid y Cyfundeb, ac yn gefnogol iawn i weithgarwch Coleg y Bala.

Bu Catrin ddiwyd yn paratoi deunyddiau Cristnogol, gan ddarparu lluo o adnoddau ar gyfer gwefan [beibl.net](http://beibl.net), yn ogystal â chyhoeddi sawl cyfrol o wersi ysgol Sul a gweithgareddau i glybiau plant. Bu hefyd yn gyfrifol am gyfieithu caneuon ac emynau i blant ac yn rhan o baratoi'r cyfrolau emynau a chaneuon i blant *Tyrd i Ddathlu a Canu Clod*. Bu Ifan yn ymddiriedolwr ac yn ysgrifennydd y Cyngor yr Ysgolion Sul yn ei dro. Mae'r ddau hefyd wedi bod yn weithgar gyda chynllun Agor y Llyfr a nifer o brosiectau lleol eraill. Diolchwn iddynt am oes o wasanaeth, ac am eu hawydd a'i brwdfrydedd i gyflwyno'r efblyg i blant. Maen nhw bellach wedi ymddeol ac yn byw yng Nghaerdydd, ond yn parhau i fod yn weithgar yn eu heglwys leol.

Ymhen yr wythnos cyflwynwyd medal hefyd i Mr Nigel Davies (a oedd ar ei wyliau dros gyfnod cyfarfod Llanddarog)

am ei gyfraniad nodedig yntau. Cafwyd gwahoddiad i ymweld â'i gartref ger San Clêr, lle cafodd Aled Davies, Cyfarwyddwr Cyngor yr Ysgolion Sul, gyfle i ddiolch iddo am gydweithio hapus dros gyfnod maith o 18 mlynedd fel gweithiwr i Gyngor yr Ysgolion Sul. Penodwyd Aled a Nigel yr un diwrnod, a hynny ddechrau 1989, Aled i weithio yn y gogledd a Nigel yn y de. Bu Nigel yn weithgar yn ei ardal, a chofir am y gornestau chwaraeon, y cwisiau Beiblaidd, Bwrllwm Bro, a nifer o wersylloedd Cristnogol yn Llangrannog, Pen-y-groes a Phorth Tywyn. Teithiodd hefyd i eisteddfodau a nosweithiau hyfforddi athrawon a gweithwyr Cristnogol.



Nigel Davies (ar y dde) yn derbyn ei fedal gan Aled Davies

Wedi 18 mlynedd o gydweithio hapus, penodwyd Nigel i barhau â'r un math o waith i elusen MIC (Menter Ieuencid Cristnogol), gan weithio'n fwy lleol yn Sir Gaerfyrddin, a gwnaeth hynny am 12 mlynedd arall. Diolchwn am gyfraniad Nigel, a fu'n brysur yn cyflwyno'r efblyg i gannoedd o blant ac ieuencid mewn amryw ffyrdd. Bu hefyd yn gweithio'n rhan amser fel swyddog plant i eglwys Penuel, Caerfyrddin, lle mae'n aelod gwerthfawr ac egniol. Erbyn hyn mae Nigel yn dilyn cwrs pregethwyr lleig, a dymunwn yn dda iddo yn y maes hwnnw.

Oes, mae gan ysgolion Sul Cymru le i fod yn ddiolchgar am gyfraniad y tri ohonynt, a diolchwn am eu dystiolaeth glodwiw sy'n parhau.

Aled Davies,  
Cyngor yr Ysgolion Sul  
[www.ysgolion.sul.com](http://www.ysgolion.sul.com)

## Tywysog Tangnefedd mewn Byd o Ryfeloedd

Wrth arwain at dymor yr Adfent, fe fyddwn yn cyflwyno cyfres o fyfyrddodau o'r gyfrol *The Prince of Peace in a World of Wars* gan David Kerrigan (llyfr Adfent y BRF) yn ganllaw ar gyfer astudiaeth a thrafodaeth mewn grŵp bychan ac ar gyfer myfyrdod personol. Hyd 2017 David Kerrigan oedd Cyfarwyddwr Cyffredinol Cenhadaeth Fyd-eang y BMS (Cymdeithas Genhadol y Bedyddwyr).

### 3 Deall Heddwch

#### Shalom yn yr amser i ddod

#### Darllen: Eseia 11:1-3,6-9

Mae Eseia 11 yn un o'r darnau mawr hynny yn yr ysgrythur sy'n rhagfynegi dyfodiad y Meseia. Yn yr adnod gyntaf fe glywn am Jesse, tad y brenin Dafydd, yr oedd cymaint o barch yn Israel tuag ato. Mae'r un sy'n flaguryn o gyff Jesse (y bydd ysbryd yr Arglwydd yn gorffwys arno) yn awgrymu disgynnydd i ddod a fydd yn y llinach frenhinol. Yn ei restr achau, mae Mathew yn cysylltu Iesu â Dafydd, Dafydd â Jesse a Jesse ag Abraham (gw. Mathew 1:1-7) fel petai'n gosod yr olygfa ar gyfer hanes ei eni neu ei Nadolig. Wrth wneud hynny, mae'r efengyllydd yn ei gwneud hi'n eglur mai Iesu yw'r un sy'n cyflawni addewid Duw i Abraham i alw pobl ato'i hun (gw. Genesis 12:1-3).

Ceir rhestr achau yn efengyl Luc hefyd (3:23-8), sy'n cysylltu Iesu â Dafydd, Dafydd â Jesse a Jesse yn ôl at Adda, gan dynnu sylw at y ffaith y bydd y Meseia yn dad-wneud y cyfan sydd wedi ei golli yn sgil y cwmp.

Mae hyn yn swnio'n ardderchog cyn belled! Ond mae'r mewnwelediad newydd cyffrous yn adnodau 6-9 yn y bennod dan sylw yn ymestyn y tu hwnt i'r hyn yr ydym wedi ei brofi eisoes. Ydy, mae heddwch ar gael i bawb sy'n rhan o deulu'r ffydd; ydy, mae'r heddwch hwnnw yn rhywbeth sydd â goblygiadau ymarferol ar gyfer pawb heddiw, ac ar gyfer cenhadaeth yr eglwys. Ond mae'r adnodau hyn fel petaent yn rhag-weld dydd pan fydd popeth a ystyriwn yn arferol a chyffredin inni yn cael ei newid. Pwy all ddychmygu dydd pan fydd blaidd ac oen yn cydorwedd? Allwch chi ddychmygu dydd pan fydd llew a llo yn cael eu harwain allan am dro gan blentyn?


Baban heb ei ddiddyfnu eto yn chwarae â neidr? Am beth mae hyn i gyd yn sôn?

Fe ymddengys mai'r hyn sy'n digwydd ydy bod yr holl elyniaeth, drwgdeimlad a thrais yr ydym yn ei gymryd yn ganiataol yn y byd yn cael ei gyfnewid am y profiad o fyw mewn cytgor. Ceir llawenydd diderfyn yn y delweddau hyn, ag adlais o Eden yn amlwg yn rhan o'r bwriad wrth inni alw i gof yr awdurdod hwnnw a roddwyd i ddyn yn Genesis 1:26-8. Edrych ymlaen mae'r adnodau hyn yn Eseia, wrth gwrs, ond canlyniad ymddangosiad y Meseia o linach Dafydd ydynt, a chadarnheir hyn gan loan wrth iddo ef adrodd am y weledigaeth o Iesu a roddwyd iddo oedd yn tanlinellu mai gwreiddyn ac (yr un pryd) mai disgynnydd Dafydd ydyw (Datguddiad 22:16).

Pwyswch y botwm sy'n symud pethau ymlaen oddi wrth gyfnod Eseia at y noson honno ym Methlehem a gallwn weld y nodweddion hyn yn cael eu datguddio. Yr oedd y Duw oedd yn rhagsynhwyro'i bresenoldeb ei hun yn ein plith yn dod, nid yn unig i ymgorffori'r teulu a hiliogaeth y ffydd a addewir i Abraham a'i gynnig i'r holl fyd (Galatiaid 3:14), ac nid yn unig i ddad-wneud pechod Adda (Rhufeiniaid 5:12,18), ond hefyd fel arwydd y byddai'r profiad o greadigaeth Duw y ceir cip sydyn yn unig arno yn Eden cyn ei golli yn cael ei adnewyddu ryw ddydd ar gyfer tragwyddoldeb ('Wele yr wyf yn gwneud pob peth yn newydd', Datguddiad 21:5).

Mae i'r pethau hyn eu goblygiadau ar gyfer sut yr ydym yn byw ein bywydau a sut y rhown fynegiant i'r dasg honno sydd gan yr eglwys wrth iddi fod yn rhan o genhadaeth Duw.

- Fe fyddwn yn cyhoeddi enw Iesu fel yr un sy'n maddau ein gwrthryfel pechadurus – dyma'n gwaith neu ein gweinidogaeth o efengyl.



- Fe fyddwn yn rhoi mynegiant i drugaredd bob amser ymysg tlodion a rhai dirmygedig y byd, y rhai sy'n cael eu hanghofio a'u hesgeuluso, eu defnyddio a'u camdefnyddio, a byddwn yn eu gwahodd i mewn i deulu'r ffydd – ein gweinidogaethau o dosturi.
- Ac fe fyddwn yn cynnal gobaith gwir a sicr o'n blaenau a gerbron byd toredig, o greadigaeth wedi ei hadnewyddu pryd y bydd popeth yn canfod ei gyflawniad yng Nghrist – ein tasg broffwydol.

Fe ddaeth pob rhan o'r stori hon – pob person a fu fyw erioed, pob planhigyn ac anifail, pob atom mewn bodolaeth – i fod trwy Iesu (loan 1:3) ac mae pob peth wedi ei gymodi yng Nghrist (Colosiaid 1:20). Rhyw ddydd fe wireddir y cymod hwnnw mewn byd newydd a nefoedd newydd (Datguddiad 21:1). Dyma ystod eang yr ysgrythur, gydag Iesu yn amlwg wrth ei galon.

Os mai am y tangnefedd 'sydd goruwch pob deall' y mae ein hymchwil (Philipiad 4:7), yna ni ellir dod o hyd iddo y tu allan i Iesu. Pobl Iesu ydym ni, ac fel arall does gennym ni ddim i'w gynnig i fydd sydd mewn cymaint o boen. Ond er mwyn i'r cyfan yma ddod i fod, roedd yn rhaid i Iesu ddod yn rhan o brofiad y rhai a greodd. Stori'r Nadolig yw diwedd dechrau stori Duw, a dechrau ei diwedd.

S4C

*Dechrau Canu, Dechrau Canmol*

Sul, 21 Tachwedd, am 7.30yh (ailddarlliedir y Sul canlynol am 11.30yb)

Yr wythnos hon byddwn yn nodi 20 mlynedd ers cyhoeddi'r copi cyntaf o

*Caneuon Ffydd*. Bydd Nia yn cwrrdd â'r Parch John Gwilym Jones, oedd yn aelod o'r pwyllgor ugain mlynedd yn ôl, a chawn glywed gan ddwy ffrind yng Nghapel Dewi a ganodd eu ffordd drwy dudalennau *Caneuon Ffydd* yn ystod y clo mawr.

Am gopi digidol o gylichlythyr mis Tachwedd, cliciwch ar y ddolen:

<https://spark.adobe.com/page/oucFKNip3L8Cr/>

BBC radio cymru

Sul, 21 Tachwedd – *Caniadaeth y Cysegr*, 7:30yb a 4:30yp

Rhian Williams sy'n trafod cyfraniad y cyfansoddwyr Bach a Handel i'n hemynyddiaeth

Sul, 21 Tachwedd – *Oedfa Radio Cymru*, 12:00yp  
Gwasanaeth yng ngofal y Parch Casi Jones, Bangor

I weld y cyhoeddiad digidol *Cenn@d* yn llawn, dilynwch y ddolen hon: [www.cennad.cymru](http://www.cennad.cymru)

(Cyhoeddir *Cenn@d* ar ran Undeb Bedyddwyr Cymru ac Eglwys Bresbyteriaid Cymru, a rhennir tudalennau cydenwadol y cyhoeddiad ag Undeb yr Annibynwyr Cymraeg)

# Hanes Eglwys y Groes, Llangwm

(sy'n dathlu 200 mlynedd ers sefydlu'r achos eleni)<sup>1</sup>

Gweledigaeth gŵr o'r enw Thomas Ellis o Dyddyn Eli (neu Tŷ Nant o roddi enw gwreiddiol y tŷ) wnaeth gychwyn yr achos yn Eglwys y Groes, Llangwm. Ganwyd ef ar 1 Tachwedd ym 1765, yn fab i Robert Ellis, Hendreddu, Llanycil, y Bala.

Cymunwyr yn yr Eglwys Wladol oedd ei deulu, ond arferent fynd yn achlysurol i oedfaon yr Ymneilltuwyr.

Felly hefyd Thomas Ellis – weithiau gyda'r Presbyteriaid a thro arall gyda'r Annibynwyr – ac effeithiodd hynny'n fawr arno. Ac yntau'n cerdded adref, un tro, dyma benderfynu ymaelodi, ac ymhen dwy flynedd, fe ddechreuodd bregethu. Roedd yn ei ugeiniau ar y pryd.



Capel y Groes, Llangwm, oddeutu 1875

## Cychwyniadau

Ym 1794, ar farwolaeth ei dad, daeth Tŷ Nant (sef Tyddyn Eli heddiw), ar gyrion pentref Llangwm i'w feddiant. Priododd â Jane, unig ferch Robert Evans o'r Bala ym 1798, a daethant i fyw i Langwm. Pan ailadeiladwyd y tŷ, ehangwyd un ystafell er mwyn ei gwneud yn fan pwrpasol i gynnal cyfarfodydd crefyddol ynddi, ac ar 18 Tachwedd, 1799, cofrestrwyd Tŷ Nant fel adeilad i bregethu ynddo.

## Sefydlu ac ehangu

Mae hanes yr achos am yr ugain mlynedd cyntaf yn ddigon prin, ond erbyn 1821, mae'n rhaid bod galw am gapel. Rhoddodd Thomas Ellis ddarn o dir Tŷ Nant i'w adeiladu arno, a chyfrannodd £10 at y gwaith adeiladu. Agorwyd Capel y Groes yn swyddogol ar y 19 a'r 20 Tachwedd, 1821, ac urddwyd Thomas Ellis yn weinidog ar yr eglwys ar 24 Rhagfyr, 1822, ac yntau'n 57 mlwydd oed. Bu Thomas Ellis hefyd yn gyfrifol am sefydlu'r Eglwys ym Mhentrellyncymer, ond erbyn y 1830au, ac yntau'n ei saithdegau, roedd gwasanaethu'r ardal eang o amgylch Llangwm a Phentrellyncymer yn waith caled. Ym 1840, rhoddwyd galwad i'w fab ieuengaf, Humphrey Ellis, i gydweinigogaethu ag ef. Ym 1841, dyma benderfynu adeiladu capel yn ardal Gellioedd, Llangwm, a bu Humphrey Ellis yn gofalu am y tair eglwys – Llangwm, Gellioedd a Phentrellyncymer – am ddeng mlynedd. Bu farw ei dad ym

1843 ac ychydig flynyddoedd wedyn, derbyniodd Humphrey alwad o Gorwen a Llandrillo. Er hynny, parhaodd ei ddiddordeb yn Eglwys y Groes a rhoddodd dir i helaethu'r capel a'r fynwent ym 1873 a chyfrannu'n hael at y gost hefyd.



Humphrey Ellis

## Gweinidogaethau

Bu dau arall wrth y llyw yng nghanol ail hanner y bedwaredd ganrif ar bymtheg, sef John Edwards o Athrofa'r Bala a fu'n gwasanaethu o 1851 hyd at 1871 ac Ellis Jones o Drawsfynydd o 1871 hyd 1882. Yn ei gyfnod ef y gwelwyd codi capel newydd sbon yn y Groes, a hynny yn nechrau Ebrill, 1873. Dau arall a ddaeth wedyn oedd W. D. Thomas o Athrofa'r Bala a urddwyd ym 1884 ac a fu yno am flwyddyn, ac Evan Jones o Goleg Bala-Bangor. Daeth Evan Jones yno wedi cyfnod heb weinidog o 1885 hyd 1895, a bu'n gwasanaethu'r Groes a Gellioedd hyd ei farwolaeth ym 1898.

1. Crynodeb o 'Y Groes, Llangwm' gan O. J. Hughes yn *Llawlyfr Cyfarfodydd Y Bala a'r Cylch* (Mehefin 1951) a 'Hanes yr Achos' gan David Jones, Pen-y-bont, Llangwm – darlith a roddwyd yng Nghyfarfod y Canmlwyddiant ym 1921.

**Dr Awen Mai Edwards**

(Bydd ail ran yr hanes diddorol hwn yn y rhifyn nesaf o'r *Tyst*)

# Newyn ym Madagascar

Yn ôl elusen Barnabas Fund mae sefyllfa Madagascar yn dirywio'n gyflym ac y mae miloedd o bobl yn wynebu newyn oni ddaw cymorth. Yn ne Madagascar roedd 'Catherine' sydd mewn gwith o oedran yn pryderu pam nad oedd ei pherthnasau wedi galw heibio ar eu hymweliad misol. Gan nad oedd ganddi ffordd i gysylltu â hwy, disgwyliodd am fis arall. Ond unwaith eto ni ddaeth neb. Felly, penderfynodd hi deithio ar ei hych a'i throl y 75km o'i phentref diarffordd i'r pentref mwy anhygyrch byth lle'r oedd ei pherthnasau'n byw. Pan gyrhaeddodd fe glywodd y newyddion dirdynol fod y teulu cyfan – rhieni a thri o blant – wedi marw o newyn ychydig ddyddiau ynghynt.



## Sychder, salwch a marwolaeth

O ganlyniad i newid hinsawdd bu blynyddoedd o sychder ar yr ynys sydd wedi achosi methiant crobiau ac yn sgil hynny, newyn. Dywedodd Amnest Rhyngwladol ym mis Mai eleni, 'Gyda mwy na miliwn o bobl yn wynebu newyn yn ne Madagascar rhaid i gyfranwyr, arweinyddion lleol a llywodraethau tramor drefnu rhagor o gymorth er mwyn osgoi trychineb enfawr.'

Wrth geisio ymateb i'r argyfwng mae Money for Madagascar wedi lansio cynllun bwydo arbennig yn Amboasary Sud. Wrth i'r sefyllfa ddirywio maent yn apelio am gyfraniadau tuag at y gwaith. Gall £6 fwydo plentyn am fis cyfan. Os gallowch gyfrannu ewch i wefan MFM sef: <https://moneyformadagascar.org/famine-appeal/>

## Barn Annibynnol

### Ymuno

Mor bwysig yw hi i ni fel Cristnogion i ymuno â'r alwad am weithredu buan i leihau'r effaith andwyol mae ein ffordd o fyw yn ei gael ar y blaned. Drwy ymuno â raliâu a chofrestru ein hoedfaon Sul yr Hinsawdd dros y misoedd diwethaf, rydym wedi cael y cyfle i fynegi ein consyrn fel eglwysi am ddyfodol y blaned. Braint oedd clywed darlith y Dr Hefin Jones ar 'Yr Her Amgylcheddol' yn ddiweddar oedd yn ysgogiad i ni i gyd feddwl yn ddwysach ac yn ddyfnach am ein gofal o fyd Duw.

### Jona (a'r awydd i redeg i ffwrdd)

Yn ddiweddar, cefais y cyfle i lunio pregeth ar ddameg o'r Hen Destament sef stori Jona ac os ydych chi'n meddwl am honno fel stori fach neis o ysgol Sul eich plentyndod, meddyliwch eto! O'i darllen yng nghyd-destun heddiw, mae'n her i ni i godi llais cyn ei bod hi'n rhy hwyr er mwyn achub y blaned. Mae Jona'n rhedeg i ffwrdd yn lle cyflwyno neges i bobl Ninefe fydd yn eu hachub rhag dinistr. Erbyn i chi ddarllen y geiriau hyn, bydd uwchgynhadledd COP26 wedi dirwyn i ben, cynhadledd sydd wedi ein gorfodi ni i wynebu ffeithiau am gynhesu bydeang, newid hinsawdd a difodiant posib y blaned, pethau rydym wedi ceisio rhedeg i ffwrdd ohonynt ers blynnyddoedd.

### Pawb yn dioddef

Wrth i Jona fynd ar long sy'n mynd i'r cyfeiriad anghywir, mae pawb sydd yn yr un cwch yn cael eu rhoi mewn perygl. Ac am nad ydym ni wedi bod yn

ufudd i Dduw yn ein ffordd o fyw fel pobl y Gorllewin, mae'r rhai sydd 'yn yr un cwch â ni' dan fygythiad hefyd. Mae pobl mwyaf tlawd a bregus ein byd yn dioddef ond mae rhywiogaethau eraill yn dioddef hefyd. Rydym wedi niweidio popeth, y tir, y moroedd, yr awyr a'r osôn oherwydd ein ffordd afradlon a dinistriol o fyw.



### Ail gyfle ac edifeirwch

Mae Jona yn cael ail gyfle i gyflwyno neges Duw i'r bobl yn Ninefe a dyma yw'r cyfle olaf i osgoi dinistr. Mae cynhadledd COP26 yn Glasgow wedi teimlo rhywsut fel cyfle olaf i bawb ohonom hefyd. Ymateb pobl Ninefe i'r neges gan Dduw yn y stori ydy edifeirwch ac ympryd. Y gair am edifarhau yn Hebraeg ydy *teshuvu* a gwreiddyn ei ystyr ydy'r syniad o 'ddychwelyd' – troi yn ôl at y bywyd a fwriadodd Duw ar ein cyfer o'r dechrau. Mae'r gair Groeg ar y llaw arall, sef *metanoia*, yn pwysleisio newid meddwl llwyr a darganfod pwrpas newydd. Onid ydy 'edifeirwch' yn crisialu i'r dim y meddylfryd angenrheidiol i arweinwyr ac i drigolion y gwledydd ar gyfer y misoedd a'r blynnyddoedd nesaf? Rhaid meddwl eto mewn ffordd waelodol am ein pwrpas fel bodau dynol ac ailhyfforddi'n hunain a'n gilydd i fyw mewn ffordd gwbl newydd. Mae'r byd cyfalafol wedi ein diffinio ni am ddegawdau fel cwsmeriaid a defnyddwyr ond er mwyn y blaned a'i thrigolion, mae dirfawr angen i ni ddychwelyd at y diffiniad cywirach sydd gan Dduw ohonom sef cydweithwyr a stiwardiaid.

### Casi Jones

(Nid yw cynnwys y Barn Annibynnol o reidrwydd yn adlewyrchu safbwynt Undeb yr Annibynnwyr na'r tîm golygyddol.)

## Neges o obaith

### Pan y gwn i

Pan welaf wyneb baban bach ar lin, a'i glywed yno'n yngan gair ar fin; mi wn fod inni lawer mwy o'n plaid, na llinach natur, neu ryw rawd, o raid.

Pan glywaf dincial y pureiddiaf lais yn llorio'r dyrfa hwnt i bris a chais; mi wn fod inni fraint sy'n fwy na bri a hynny'n unig yn ei chalon hi.

Pan deimlaf iasau'r proffwyd ar ei daith a grym y gwirionedd yn ei wŷs a'i iaith; mi wn fod inni fwy na gorau dyn, a'i fod yn frenin Teyrnas Dduw ei hun.

Pan sawraf eto'r canol fisoedd clir, ac arogleuo eu bersawrau hir; mi wn fod inni'n cuddio yn y gwynt rinweddau'r Crëwr ar ryw rasol hyn.

Pan flasaf ffrwythau i'w melyster-fudd, a phrofi mwyniant eu hydrefol sudd; gwn, mi wn yn grwn er mor groes y blas, y daw na dymor ag aeddfedrwydd gras.

Gerald Jones



Yr Ysgrifennydd Cyffredinol Dyfrig Rees a'r Parchg Beti Wyn James ymhlith y miloedd yng Nghaerdydd fu'n galw am bolisiau chwyldroadol er mwyn atal cynhesu byd-eang

*Erthyglau, llythyrau at y Prif Olygydd:*  
**Y Parchg Ddr Alun Tudur**  
 39 Dorchester Avenue, Pen-y-lan,  
 Caerdydd, CF23 9BS  
 Ffôn: 02920 490582  
 E-bost: aluntudur@btinternet.com

**Golygyddion**  
 Y Parchg Iwan Llewelyn Jones  
 Fronheulog, 12 Tan-y-Foel,  
 Borth-y-gest, Porthmadog, Gwynedd,  
 LL49 9UE  
 Ffôn: 01766 513138  
 E-bost: IwanLlew@aol.com

Alun Lenny  
 Porth Angel, 26 Teras Picton  
 Caerfyrddin, Sir Gâr, SA31 3BX  
 Ffôn: 01267 232577 /  
 0781 751 9039  
 E-bost: alunlenny@hotmail.co.uk

*Archebion a thaliadau i'r Llyfrfa:*  
**Tŷ John Penri, 5 Axis Court, Parc  
 Busnes Glanrafon, Bro Abertawe**  
**ABERTAWA SA7 0AJ**  
**Ffôn: 01792 795888**  
 E-bost: undeb@annibynwyr.cymru

### Dalier Sylw!

Cyhoeddwr yr Adran Gydenwadol  
 gan Bwyllgor Llywio'r Adran  
 Gydenwadol ac nid gan Undeb yr  
 Annibynwyr Cymraeg. Nid oes a  
 wnelo Golygyddion Y Tyst ddim â  
 chynnwys yr Adran Gydenwadol.

## Sul Sbesial Cyfundeb Ceredigion

### Mae SUL SBESIAL YN SBESIAL!

Cynhaliwyd Sul Sbesial Cyfundeb Ceredigion ym mis Medi a hynny yng Ngwersyll yr Urdd, Llangrannog. Wedi misoedd mor anodd i bawb o aelodau ein heglwysi, Athrawon a disgyblion yr ysgolion Sul, roedd yn bryd codi calon pawb. Yr oedd y paratodau er mwyn bod yng nghwmni eraill i addoli Duw mewn awyrgylch hapus wedi bod yn Sbesial.

Gwnaethpwyd y cwbl dan gyfyngiadau a rheolau COVID-19, gydag asesiad risg trylwyr, gan gadw pawb yn ddiogel. Dechreuwyd trwy addoliad ym mhrif neuadd y gwersyll. Estynnwyd croeso cynnes i bawb gan Karine Davies, cadeirydd cwrdd chwarter Cyfundeb Ceredigion a chafwyd neges addas, perthnasol ag amserol gan y Parchedig Carys Ann.

Roedd y canu yng ngofal yr actores Gillian Elisa gyda Rhian Evans, ysgrifennydd Capel Glynarthen yn gwasanaethu wrth y piano. Gwerthfawrogir y gefnogaeth gan bawb, boed hwy yn rieni, disgyblion ysgolion Sul y Cyfundeb ac unigolion am fynegu eu ffydd trwy eu presenoldeb. Cymerwyd at y rhannau arweiniol gan blant Ysgolion Sul, Pencae; Tabernacl, Pencader a Glynarthen.

Wedi'r cydaddoli cafwyd y cyfle i fwynhau holl atyniadau amrywiol Gwersyll yr Urdd allan yn yr awyr agored.

Bu'r diwrnod yn llwyddiant ysgubol, gyda phawb wedi mwynhau dod at ei gilydd i addoli a chanu clod i Dduw, o'r ieuengaf i'r hynaf, y teimlad oedd eu bod hwy wedi cael prynhawn arbennig. Diwrnod i'w gofio a'r ceisiadau wedi dod i'r Cyfundeb i gynnal dydd o'r fath yn ffyddol.

**Karine Davies a Carys Ann**



*Carys Ann, Gillian Elisa a Karine Davies*



*Ysgol Sul Glynarthen*

## Medal Gee

Mewn oedfa yng nghapel Soar, Cwm-pen-graig, Pen-boyr, Sir Gaerfyrddin ar brynhawn Sul 17 Hydref, cyflwynwyd Medal Goffa Mr a Mrs Thomas Gee i Mr Alan Campden, aelod ffyddlon o ysgol Sul a chynulleidfa'r eglwys ar hyd ei oes.

Bu Alan yn weithiwr cymdeithasol yn Sir Gaerfyrddin am dros 30 mlynedd cyn ei ymddeoliad. Ar hyd ei oes bu'n selog tu hwnt i holl agweddau bywyd Eglwys Gynulleidfaol Soar, gan gynnwys yr ysgol Sul. Er na bu dosbarth plant ac ieuencid yn

rhan o'r ysgol Sul mewn blynyddoedd diweddar, mae'r dosbarth oedolion yn cwrdd yn ffyddlon o hyd, gydag Alan ymhlith y ffyddlonaf. Bu'n arolygwr a thrysorydd yr ysgol Sul yn ei dro.

Gwnaethpwyd Alan yn ddiagon yn eglwys Soar yn 1961. Bu'n un o selogion yr ysgol gân a'r gymanfa ganu. Pan oedd y Gymdeithas Ddiwylliadol yn ei hanterth, byddai Alan yn actio gyda'r goreuon, ac yn canu yng nghôr y capel mewn eisteddfodau. Bu'n drysorydd yr adeiladau, ac mae ef yn parhau fel y cyhoeddwr yn ystod oedfaon y Sul.



*Mrs Delyth Evans (cadeirydd y cyngor bro, ac ysgrifennydd eglwys Clos-y-graig), Mr Daniel Rees (ysgrifennydd eglwys gynulleidfaol Soar), y Parchg Aled Jones, Mr Alan Campden, Mrs Olive Campden*